Rheolaeth

MEDDYLIWCH AMDANI

Ebrill 2007

Bydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt i hybu gwell perfformiad o ran rheoli ar bob lefel yn yr economi.

Fel rhan o'r dasg honno, rydym yn annog rheolwyr fel chi i ystyried sut gallan nhw ehangu eu galluoedd eu hunain a gwella yn eu gwaith.

Nod y daflen grynodeb yma, a fydd yn cael ei chyhoeddi bob mis, yw'ch helpu chi i ganolbwyntio yn fwy eglur ar yr heriau ymarferol sy'n eich wynebu.

Nid ydym yn honni bod yr holl atebion gennym, ond rydym yn gobeithio y bydd y cwestiynau yma'n ysgogi ystyriaeth a fydd yn ddefnyddiol i chi. Os ydych chi am roi'ch barn ar unrhyw rai o'r materion sy'n cael eu codi, cysylltwch â ni.

gwyneth.stroud @crc-wmc.org.uk

Eich bys ar y pwls?

Ysgrifennodd WJ King, peiriannydd ac awdur o America, yn y clasur a ailgyhoeddwyd yn ddiweddar, 'The Unwritten Laws of Business': "Mae'n rhaid i bob rheolwr wybod yr hyn sy'n digwydd yn ei faes cyfrifoldeb, ond nid yw hynny'n golygu bod yn ymwybodol o bob manylyn bychan. Ni ddylai'ch ymwneud fyth atal gweithrediadau."

Ydy hyn yn afresymol o galed? Onid yw'r lath dermau'n rhan o dafodiaith fodern sydd wedi datblygu er mwyn cyfleu cysyniadau busnes allweddol? Ynteu fyddan nhw'n cael eu defnyddio yn lle meddwl go iawn, oherwydd diogi? Fyddech chi'n well eich byd pe byddech chi'n eu dileu o'ch geirfa swyddfa'n gyfan gwbl? Wnaethoch chi erioed geisio bathu ymadroddion yn lle'r ystrydebau cyffredin?

Tyfu i mewn i'r Swydd

Dywed y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygiad fod gan 85% o sefydliadau anawsterau o ran recriwtio. Yn benodol, maen nhw'n cael trafferth dod o hyd i bobl â sgiliau arbenigol neu brofiad perthnasol. O ganlyniad, mae llawer yn gorfod cyfaddawdu yn eu dewisiadau.

Pe byddech chi dan bwysau, a fyddech chi'n mentro penodi rhywun nad oedd y cymwysterau llawn ganddo i swydd allweddol? Os felly, sut fyddech chi'n rheoli'r risg dan sylw a sut fyddech chi'n sicrhau bod gan yr ymgeisydd rydych chi'n ei ddewis y gallu posibl i dyfu i mewn i'r rôl?

Gweithiwr Canolog

Ysgrifennodd yr awduron busnes Gordon Bell a Heidi Mason yn eu llyfr The Care and Nurture of Intrapreneurs: "Fe ddatblygodd Dyffryn Silicon fodel busnes 'athrylith', lle byddech chi'n dod o hyd i athrylith ac yn adeiladu busnes o'i gwmpas."

Ydy hi'n beth call adeiladu tîm, adran neu gwmni o gwmpas un unigolyn o allu eithriadol, hyd yn oed os bydd hyn yn arwain at gyfle busnes o bwys? Pe baech yn gwneud hyn, pa gamau fyddech chi'n eu cymryd i warantu teyrngarwch yr unigolyn, neu sut fyddech chi'n ymdopi pe bai'n penderfynu gadael?

Mwynhad a llwyddiant

Yn ôl arolwg newydd gan y Sefydliad Rheolaeth Siartredig, dywedodd chwech allan o bob deg rheolwr eu bod yn credu bod mwynhau gwaith yn hanfodol i lwyddiant. Fodd bynnag, chwech allan o bob cant yn unig oedd yn credu bod eu cyflogwyr o'r un farn.

I ba raddau ydych chi'n rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod pobl yn mwynhau eu gwaith yn eich sefydliad? Os ydych chi o'r farn bod hyn yn bwysig, sut ydych chi'n cyfleu hyn i'ch rheolwyr a'ch staff?

Taw Piau Hi

Darganfu arolwg gan undeb llafur manwerthu USDAW fod 62% o weithwyr a ddaeth yn feichiog yn teimlo bod eu pennaeth yn eu trin yn fwy negyddol o'r herwydd, a bod 25% yn teimlo'u bod ar yr ymylon neu'n cael eu hanwybyddu.

Fel rheolwr, ydych chi'n euog weithiau o roi gweithiwr beichiog ar y cyrion, boed hynny'n ymwybodol neu'n anymwybodol? Ydych chi'n cynllunio'n briodol er mwyn sicrhau bod absenoldeb mamolaeth yn cael effaith gadarnhaol ar yr aelod o staff dan sylw, ac ar y busnes? Ydych chi wedi ystyried sut y gallech chi ddefnyddio rheolau newydd sy'n caniatáu ichi gadw mewn cysylltiad â gweithwyr sydd ar absenoldeb mamolaeth, a hynny mewn modd adeiladol?

Gwerth eu darllen

O gael cipolwg ar Gasgliad Gwanwyn Ysgol Fusnes Harvard o lyfrau, gwelir mai "Rhoi eich Pobl yn Gyntaf" yw un prif thema. Ymhlith y penawdau mae "The HR Value Proposition", "Thinking for a Living", "The HR Scorecard", "The Essentials of Corporate Communications and Public Relations" a "Hiring Smart for Competitive Advantage". Rhyngddyn nhw, gallan nhw ddarparu syniadau, offer cefnogi, gwybodaeth am reoli argyfyngau ac ymateb i ymholiadau, ac awgrymiadau ar roi'r bobl iawn yn y swyddi iawn.

Cyngor Rheolaeth Cymru
Wales Management Council

n cyflogi 4 o bobl neu lai), yn aml yn methu â manteisio ar hyfforddiant rheoli ac arwain

Tywys Cymru Tuag At Ragoriaeth ym maes Rheolaeth